

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

(Noder y bydd yr Adran hon yn cael ei chyhoeddi)

Ar ffurf naratif, disgrifiwch y mater a'r camau gweithredu a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Sut ydych chi wedi / y byddwch yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r camau gweithredu a gynigir yn y polisi a'r cylch cyflenwi drwyddo draw?

Cynhyrchwyd yr Asesiad Effaith Integredig hwn gan y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno meini prawf cymhwyso diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim o 1 Ebrill 2019 ac o ganlyniad i barhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol ar draws Cymru.

Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno'n raddol ledled y DU. Cwblhawyd y broses o gyflwyno i hawlwr newydd yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2018 ac mae rhai teuluoedd sy'n derbyn y budd-daliadau y mae'n eu disodli eisoes wedi cael eu mudo i Gredyd Cynhwysol (os yw eu hamgylchiadau wedi newid). Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd yr holl hawlwr sy'n weddill yn cael eu symud i Gredyd Cynhwysol rhwng 2020 a 2023.

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, mae plant a phobl ifanc yn gymwys i wneud cais am brydau ysgol am ddim os ydynt hwy neu eu rhiant / rhieni / gwarcheidwaid yn derbyn budd-daliadau penodol a chredydau treth¹. Bydd Credyd Cynhwysol yn disodli'r rhain, ond bydd hefyd yn disodli budd-daliadau eraill a chredydau treth² na fyddai eu derbyn wedi rhoi'r hawl i deuluoedd gael prydau ysgol am ddim.

Roedd Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013 yn ymestyn y meini prawf cymhwystra ar gyfer cinio ysgol a llaeth am ddim dros dro, i gynnwys pob teulu oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol. Roedd hyn yn ymateb i gyflwyniad ehangach Credyd Cynhwysol ac yn fesur dros dro i ddiogelu plant hawlwr Credyd Cynhwysol a fyddai wedi bod â hawl i brydau ysgol am ddim o dan y system flaenorol, i sicrhau nad oeddent o dan anfantais oherwydd bod eu rhiant /rhieni yn derbyn Credyd Cynhwysol yn lle hynny.

Wrth barhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol, bydd nifer y disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn parhau i godi. Bydd hyn nid yn unig yn arwain at gynnydd yn y gost o ddarparu prydau ysgol am ddim, ond hefyd yn effeithio ar y canlynol: -

¹ Gan gynnwys Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm a Chredyd Treth Plant

² Budd-dal Tai a Chredyd Treth Gwaith

- y Grant Datblygu Disgyblion, sy'n seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- y Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion – mae cymhwysra i dderbyn prydau ysgol am ddim yn rhan o'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r Grant Gwella Addysg
- Fformiwla ariannu Setliad Llywodraeth Leol - defnyddir data prydau ysgol am ddim fel rhan o gyfrifiad y Setliad
- Mesurau atebolrwydd, a ddefnyddir i fonitro cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, o'u cymharu â'r rhai nad ydynt.

Ni roddwyd unrhyw arian ychwanegol i Lywodraeth Cymru i reoli effaith newidiadau budd-daliadau lles Llywodraeth y DU. Er nad yw nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu'n sylweddol yn ôl y data cyfrifiad ysgol diweddaraf (gan mai'n rhannol yn unig y mae Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno), erbyn iddo gael ei gyflwyno'n llawn yn 2023-24, rydym yn amcangyfrif y byddai tua hanner o'r holl ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (o'i gymharu â 16 y cant ym mis Ionawr 2018).

Yn unol â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried effaith hirdymor unrhyw newid. O ganlyniad, byddai cynnydd o'r fath yn y baich achosion prydau ysgol am ddim yn amhosibl i'w fforddio. Pe bai angen i Weinidogion Cymru wneud rhai dewisiadau anodd iawn oherwydd y cynnydd yn nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae effeithiau andwyol yn bosibl mewn meysydd eraill o ganlyniad i ail-ddyrannu cyllidebau.

Felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno trothwy incwm a enillir a fydd yn golygu na fydd gan y rhai sydd ag enillion net blynyddol o gyflogaeth neu hunangyflogaeth o fwy na £7,400 hawl i brydau ysgol am ddim. Byddai gan deulu nodweddiadol sy'n ennill oddeutu £7,400 y flwyddyn, yn dibynnu ar yr union amgylchiadau, incwm cartref rhwng £18,000 a £24,000 unwaith y bydd budd-daliadau yn cael eu hystyried³.

Hefyd, yn unol â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* ("Cymru sy'n fwy cyfartal"), blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y rhai hynny sydd â'r angen mwyaf am brydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn gymwys. Mae ymestyn y cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn teuluoedd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn mynd y tu hwnt i'r nod o ddarparu prydau ysgol am ddim i blant o gartrefi â'r incwm isaf. Wrth i deuluoedd symud i Gredyd Cynhwysol, gallant, mewn rhai amgylchiadau, ennill dros £40,000 a dal i dderbyn cyfran fechan o Gredyd Cynhwysol.

³ Ffynhonnell: DfE (2017) Eligibility for free school meals and the early years pupil premium under Universal Credit <https://www.gov.uk/government/consultations/eligibility-for-free-school-meals-and-the-early-years-pupil-premium-under-universal-credit>

Nid yw'r dystiolaeth o gysylltiad uniongyrchol rhwng derbyn prydau ysgol am ddim a chanlyniadau iechyd gwell yn hollol glir⁴. Fodd bynnag, mae darpariaeth Llywodraeth Cymru o bryd bwyd iach a chytbwys o ran maeth i blant o gefndiroedd difreintiedig, o bosibl eu hunig bryd poeth y dydd, yn sicr yn unol ag amcan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o Gymru iachach.

⁴ Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu y gall darparu prydau ysgol, a phrydau ysgol am ddim i'r rhai sydd eu hangen, fod â manteision iechyd, a'u bod o bosibl yn caniatáu i blant o deuluoedd incwm isel gael pryd maethlon – Fair and Square: A policy Report on the Future of Free School Meals. Cymdeithas y Plant (2012): https://www.childrensociety.org.uk/sites/default/files/tcs/fair_and_square_policy_report_final.pdf

Rydym wedi canfod tystiolaeth sy'n cysylltu prydau ysgol am ddim i bawb ag ymddygiad bwyta'n iach. Roedd ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg yn Lloegr ar Werthusiad o'r Peilot Prydau Ysgol Am Ddim yn cymharu dau ddull o ymestyn cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim – prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn ysgolion cynradd mewn dwy ardal awdurdod lleol, ac mewn trydedd ardal awdurdod lleol, estynnwyd yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd o deuluoedd ar Gredyd Treth Gwaith gydag incwm blynyddol heb fod yn fwy na £16,040 yn 2009-10: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/184047/DFE-RR227.pdf

O ran yr effaith ar iechyd, arweiniodd y cynllun peilot prydau am ddim i bob plentyn at newid yn y mathau o fwydydd y mae disgyblion yn eu bwyta a'u hyfed amser cinio – roedd disgyblion yn yr ardaloedd peilot cyffredinol hynny yn llawer mwy tebygol o fwyta llysiau, sglodion neu datws wedi'u rhostio/ffrio a reis/pasta/tatws wedi'u ffrio mewn olew ac i yfed dŵr. Roedd disgyblion yn yr ardaloedd peilot cyffredinol hefyd yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod yn bwyta creision o leiaf unwaith y dydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw newidiadau arwyddocaol eraill yn y bwydydd a'r diodydd eraill a oedd yn cael eu bwyta ar ddiwrnodau ysgol, er gwaethaf y newidiadau a welwyd amser cinio; nid oedd disgyblion yn yr ardaloedd peilot cyffredinol yn llai tebygol o fwyta pryd poeth yn y nos chwaith.

Ychydig o effaith a gafodd y peilot hawl estynedig ar y gwahanol fathau o fwyd a diod a fwytawyd, naill ai amser cinio neu yn gyffredinol.

Yn ogystal, dangosodd Gwerthusiad Prydau Ysgol am Ddim Cyffredinol i Fabanod gan y Sefydliad Polisi Addysg (2018) fod 30% o arweinydd ysgolion yn teimlo bod iechyd cyffredinol disgyblion wedi gwella o ganlyniad i gynnig prydau ysgol am ddim cyffredinol i fabanod, tra bod 54% 57 o athrawon a holwyd yn teimlo bod y polisi wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd plant oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

<https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2018/01/UIFSM-evaluation-7.compressed.pdf>

Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd y gall prydau ysgol iach helpu i wella cyrhaeddiad addysgol trwy wella ymddygiad yn y dosbarth a helpu i wella perfformiad academaidd – Gwerthusiad Prydau Ysgol am Ddim Cyffredinol i Fabanod. Sefydliad Polisi Addysg (2018)

<https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2018/01/UIFSM-evaluation-7.compressed.pdf>

Fodd bynnag, mae ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (<https://www.ifs.org.uk/publications/8714>) wedi canfod bod cefnogaeth ar gyfer rhaglen frechwast blwyddyn o hyd mewn ysgolion difreintiedig wedi arwain at fuddion academaidd tebyg i ddarparu prydau ysgol am ddim i bawb (er bod y gwelliannau'n uwch ym Mlwyddyn 2 na Blwyddyn 6). Yn ogystal, arweiniodd y clybiau brechwast at wella ymddygiad a chanolbwyntio yn sylweddol, a gwelwyd llai o absenoldebau – a hynny am tua un rhan o ddeg y gost o gynnig prydau ysgol am ddim i bob disgybl.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno amddiffyniad wrth bontio i helpu i sicrhau y byddai'r newid i feini prawf cymhwysra prydau ysgol am ddim yn achosi cyn lleied o darfu â phosibl. Bydd cymhwysedd y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar y pwynt y cyflwynir y trothwy ym mis Ebrill 2019 a hawl wyr newydd o dan y trothwy a fydd yn derbyn prydau ysgol am ddim wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol, yn parhau i gael ei amddiffyn yn ystod y cyfnod cyflwyno (hyd at 2023), hyd yn oed os yw eu cymhwysra yn newid yn ystod y cyfnod hwnnw. Wedi hynny, bydd yr amddiffyniad yn parhau hyd ddiwedd cyfnod yr ysgol (cynradd neu uwchradd)⁵.

Pan fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno'n llawn, bydd unrhyw hawl wyr presennol nad ydynt bellach yn bodloni'r meini prawf cymhwysra ar y pwynt hwnnw (oherwydd eu bod yn ennill uwchlaw'r trothwy) yn parhau i gael eu hamddiffyn tan ddiwedd eu cyfnod addysg presennol (e.e. cynradd, uwchradd).

I ddechrau, cynigiodd Llywodraeth Cymru gyflwyno'r trothwy o £7,400 ar 1 Ionawr 2019. Yn unol ag ethos "gynhwysol" Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r ymwybyddiaeth bod galwadau i ymestyn prydau ysgol am ddim i bob teulu sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynigion rhwng 6 Mehefin a 14 Medi 2018. Derbyniwyd cyfanswm o 98 o ymatebion.

Pan ofynnwyd a ddylai fod trothwy enillion, atebodd 84 o ymatebwyr y cwestiwn, gyda 43 yn anghytuno. Yn ogystal, pan ofynnwyd a oedd trothwy o £7,400 yn briodol, roedd 56 allan o'r 83 o ymatebwyr a atebodd yn anghytuno. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu bwrw ymlaen â'i chynlluniau i gyflwyno trothwy blynyddol o enillion net blynyddol o £7,400. Y prif resymau dros hyn yw:

- Amcangyfrifwn na fydd y mwyafrif helaeth o'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gweld unrhyw newid i'w cymhwysra prydau ysgol am ddim.
- Fel y nodwyd eisoes, ni ddarparwyd unrhyw arian ychwanegol i Lywodraeth Cymru reoli effaith newidiadau budd-dal Llywodraeth y DU ar brydau ysgol am ddim. Bydd angen cwrdd â chost unrhyw gynnydd yn nifer y plant cymwys o gyllidebau presennol. Os na chyflwynir trothwy, erbyn i'r amser y caiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno'n llawn yn 2023, rydym yn amcangyfrif y byddai tua hanner yr holl ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (o'i gymharu â 16 y cant ym mis Ionawr 2018). Ni fyddai hyn yn fforddiadwy.
- Byddai cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn arwain at rai penderfyniadau anodd iawn, a gostyngiadau posibl i gyllidebau mewn meysydd eraill.

⁵ Ni fydd amddiffyniad wrth bontio yn cael ei ymestyn i gynnwys hawl wyr sydd ddim yn derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau etifeddol, ac sydd felly ddim yn cael eu heffeithio gan y newidiadau i feini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim.

- Po uchaf y trothwy enillion a gyflwynwn, po uchaf yw'r risg na fyddwn yn gallu fforddio talu am y nifer cynyddol o brydau ysgol am ddim.
- Mae ein dadansoddiad diweddaraf yn awgrymu y bydd mwy o blant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim trwy gydol cyfnod cyflwyno'r Credyd Cyffredinol oherwydd y polisi hwn na fyddai wedi bod o dan yr hen system etifeddol. Mae costau ychwanegol yn gysylltiedig â hyn, ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y rhain yn fforddiadwy ac yn sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer prydau ysgol am ddim.
- Mae defnyddio trothwy incwm enillion net yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd gan weinyddiaethau datganoledig eraill. Ym mis Ebrill 2018, cyflwynodd Adran Addysg Lloegr drothwy enillion net o £7,400 y flwyddyn i asesu cymhwysra aelwydydd am brydau ysgol am ddim o dan Gredyd Cynhwysol yn Lloegr. Ym mis Awst 2017, cyflwynodd Llywodraeth yr Alban hefyd drothwy incwm enillion net o £610 y mis (sy'n cyfateb i £7,320 y flwyddyn) ar gyfer hawlwr Credyd Cynhwysol yn yr Alban.

ADRAN 7. CASGLIAD

(Noder y bydd yr Adran hon yn cael ei chyhoeddi)

7.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Wrth ddatblygu'r polisi hwn rydym wedi ymgynghori â swyddogion Llywodraeth Cymru o:

- Y Gyfarwyddiaeth Addysg
- Y Gangen Ddeddfwriaeth yn Nhîm Gweithrediadau'r AGC
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Cyllid Llywodraeth Leol
- Yr Is-adran Dyfodol Ffyniannus
- Yr Is-adran Cymunedau
- Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
- Trysorlys Cymru

Rydym hefyd wedi cysylltu ag adrannau eraill y llywodraeth, gan gynnwys:

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC)
- Yr Adran Addysg yn Lloegr
- Llywodraeth yr Alban
- Adran Addysg Gogledd Iwerddon (DENI)

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 6 Mehefin a 14 Medi 2018. Fel rhan o'r broses ymgynghori ehangach, ymgysylltwyd â sefydliadau'r Trydydd Sector sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yng Nghymru.

Ni ystyriwyd ei bod yn briodol ymgynghori yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Nid yn unig mae hwn yn faes pwnc technegol iawn, ond efallai na fydd rhai plant a phobl ifanc yn ymwybodol eu bod hwy, neu eu cyd-ddisgyblion, yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae perygl y byddai tynnu sylw at y mater hwn yn uniongyrchol gyda phlant neu bobl ifanc yn achosi gofid ac yn peri iddynt boeni am gyllid y cartref a/neu greu stigma i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau/taliadau cymorth a budd-daliadau pasport fel prydau ysgol am ddim.

7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae darparu prydau ysgol am ddim yn unol â'r nod llesiant "Cymru sy'n fwy cyfartal", gan helpu i sicrhau bod plant yn gallu cael pryd iach a maethlon. Mae rhywfaint o dystiolaeth⁶ sy'n awgrymu y gall darparu prydau ysgol, a phrydau ysgol am ddim i'r rhai sydd eu hangen, fod â manteision iechyd ac o bosibl yn caniatáu i blant o deuluoedd incwm isel gael pryd maethlon. Rydym wedi

⁶ Gweler Troednodyn 4 yn Adran 1 yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

canfod tystiolaeth i gysylltu prydau ysgol am ddim i **bawb** gydag ymddygiad bwyta'n iach⁷ ond dim tystiolaeth i ddangos cysylltiad uniongyrchol rhwng derbyn prydau ysgol am ddim a gwell canlyniadau iechyd. Mae darparu prydau ysgol am ddim yn gallu atal bod yn llwglyd a rhoi cyfle i ddisgyblion gael pryd iachus am ddim yn yr ysgol. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd⁸ y gall prydau ysgol iach helpu i wella cyrhaeddiad addysgol trwy wella ymddygiad yn y dosbarth a helpu i wella perfformiad academiaidd. Hefyd, lle defnyddir cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim fel dangosydd dirprwyol o amddifadedd plant o oedran disgyblion sy'n gysylltiedig â darparu cyllid ychwanegol, fel gyda'r Grant Datblygu Disgyblion (y Grant Amddifadedd Disgyblion gynt), mae tystiolaeth bod y cyllid ychwanegol hwn yn cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar ganlyniadau addysgol⁹.

O ganlyniad, gellir dadlau bod darpariaeth prydau ysgol am ddim yn unol â nod llesiant "Cymru iachach".

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod prydau ysgol am ddim yn parhau i fod ar gael i'r rhai sydd eu hangen fwyaf. Felly, effaith fwyaf dymunol cyflwyno meini prawf cymhwysra diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim oedd cyflwyno trothwy incwm a enillir sy'n sicrhau bod prydau ysgol am ddim yn cael eu targedu tuag at y rhai sydd eu hangen fwyaf, yn ogystal ag amddiffyn teuluoedd y mae'r newid yn effeithio arnynt. Roedd angen cyflawni hyn o fewn y gyllideb bresennol. Mae ein dadansoddiad diweddaraf yn awgrymu y bydd mwy o blant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim trwy gydol cyfnod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol oherwydd y polisi hwn nag a fyddai wedi bod fel arall o dan yr hen system etifeddol. Bydd ein cynnig o amddiffyn wrth bontio yn sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn colli hawl i brydau ysgol am ddim hyd at ddiwedd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol ym mis Rhagfyr 2023, ac wedi hynny hyd at ddiwedd eu cyfnod ysgol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro effaith y trothwy enillion newydd a'r cynnig i amddiffyn wrth bontio a bydd yn parhau i adolygu'r trothwy.

Rydym wedi ystyried effaith ehangach bosibl y newidiadau yn y meini prawf cymhwysra (yn enwedig yn wyneb nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o ganlyniad i amddiffyn wrth bontio) ar feysydd fel y Grant Datblygu Disgyblion, dosbarthiad cyllid ar gyfer awdurdodau lleol a mesur lefelau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

⁷ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/184047/DFE-RR227.pdf

<https://epi.org.uk/wp-content/uploads/2018/01/UIFSM-evaluation-7.compressed.pdf>

⁸ Evaluation of Universal Infant Free School Meals. Y Sefydliad Polisi Addysg. (2018) (gweler y ddolen uchod).

⁹ Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, Adroddiad terfynol – Rhagfyr 2017: <https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/171213-evaluation-pupil-deprivation-grant-final-cy.pdf>

Mae dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer ysgolion wedi'u pennu ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol nesaf. Byddwn yn gofyn i ysgolion gofnodi disgyblion a amddiffynnir wrth bontio ar wahân i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion o fis Ionawr 2020. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol, fel rhan o'r broses rheoli newid, i'w helpu i addasu eu systemau a'u prosesau i gofnodi disgyblion a amddiffynnir wrth bontio. Byddwn yn parhau i fonitro'r bwlch cyrhaeddiad yn wyneb y newidiadau i'r meini prawf cymhwysra.

7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Rydym yn cefnogi teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan gyflwyno trothwy incwm a enillwyd trwy roi cynnig i amddiffyn wrth bontio ar waith, a fyddai'n sicrhau na fyddai unrhyw blentyn yn colli hawl i brydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol (a thu hwnt, i rai plant). Rydym hefyd yn bwriadu adolygu'r trothwy dan sylw.

Bydd ein cynnig i amddiffyn wrth bontio yn golygu y byddai'r disgyblion canlynol yn cael eu diogelu rhag colli eu prydau ysgol am ddim:

- 1 Ebrill 2019, byddai'r holl hawl wyr prydau ysgol am ddim sy'n bodoli eisoes yn parhau i dderbyn prydau ysgol am ddim tra bod Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno (disgwylir hynny i fod tan 2023, ar hyn o bryd). Byddai hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad ydynt bellach yn bodloni'r cyfnod meini prawf cymhwysra (e.e. os yw eu henillion yn codi uwchlaw'r trothwy newydd) yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod hwn.
- Byddai unrhyw ddisgybl sy'n dod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar ôl 1 Ebrill 2019 yn cael ei amddiffyn rhag colli prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod cyflwyno Credyd Cynhwysol. Byddai hyn yn dal i fod yn wir hyd yn oed os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysra yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod cyflwyno.
- Yn dilyn cwblhau'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol, bydd unrhyw ddisgybl presennol nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysra bellach (e.e. os yw ei riant / rhieni) yn ennill mwy na'r trothwy neu'n colli'r hawl i dderbyn Credyd Cynhwysol) yn parhau i dderbyn prydau ysgol am ddim tan ddiwedd cyfnod addysg presennol y plentyn (h.y. cynradd neu uwchradd).

Fel y disgrifiwyd uchod, bydd y newidiadau yn y meini prawf cymhwysra a'r amcangyfrif o'r cynnydd yn nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd y trothwy a'r amddiffyniad wrth bontio yn effeithio ar feysydd fel y Grant Datblygu Disgyblion, dosbarthiad cyllid ar gyfer awdurdodau lleol a mesur lefelau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Fel cam lliniaru, mae dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer ysgolion wedi'u pennu ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'r flwyddyn ariannol nesaf. Byddwn yn gofyn i ysgolion gofnodi disgyblion a amddiffynnir wrth bontio ar wahân i ddisgyblion sy'n gymwys i gael

prydau ysgol am ddim ar y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion o fis Ionawr 2020, fel y gallwn barhau i fonitro'r bwlch cyrhaeddiad yn wyneb y newidiadau yn y meini prawf cymhwystra.

7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Bydd y meini prawf cymhwystra newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2019. Mae rhagweld effaith trothwy enillion ar faint y garfan prydau ysgol am ddim yn gymhleth ac anodd. Byddwn felly'n monitro effaith y trothwy a'r cynnig diogelwch wrth bontio yn ofalus ar nifer y plant y mae'n hysbys eu bod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n cael eu hamddiffyn wrth bontio, gan ystyried nifer y rhai sy'n manteisio ar eu hawl, ynghyd â'r effeithiau cysylltiedig ar y gyllideb ac unrhyw sgil effeithiau ehangach. Bydd data cyfrifiad ysgolion yn cael ei ddefnyddio i roi arwydd o effeithiau o'r fath, ynghyd â chasglu a dadansoddi data ychwanegol lle bo angen. Bydd gwybodaeth cyfrifiad ysgolion o fis Ionawr 2020 yn darparu gwybodaeth gychwynnol ar effaith y polisi hwn.